**Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS-10-02 (p3)**

**Dyddiad:** **Dydd Mercher 1Mai 2002, 9.00am tan 12.15pm**
**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Teitl:** **Denu Mwy o Bobl at Addysg Feddygol yng Nghymru**

## Diben

1. Darparu gwybodaeth i'r aelodau ynghylch mentrau y mae Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru yn eu cymryd i ddenu mwy o bobl at addysg feddygol yng Nghymru.

## Crynodeb

2. Gellir grwpio'r prif fentrau o dan y penawdau cyffredinol canlynol:

- Y 'Cynllun Compact' ar gyfer disgyblion sydd heb draddodiad teuluol o fynychu addysg uwch.
- Mentrau i annog myfyrwyr o Ganolbarth a Gogledd Cymru (a chefn gwlad) i ymgymryd ag addysg feddygol.
- Mentrau i annog mwy o fyfyrwyr aeddfed i ymgymryd ag addysg feddygol.
- 'Cwricwlwm 2000' newydd er mwyn annog myfyrwyr o ysgolion a cholegau sydd heb draddodiad o anfon eu myfyrwyr ymlaen i addysg uwch.

## Cefndir

3. Ers cyfnod hir, y farn y tu fewn a thu allan i'r proffesiynau iechyd yw bod y myfyrwyr sydd wedi'u derbyn i'r proffesiynau hynny yn dod o haen rhy gul o fewn y gymdeithas, ac nid ydynt yn adlewyrchu amrywiaeth diwylliannol a chymdeithasol-economaidd poblogaeth Cymru.

O ganlyniad, mae Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru (CMPC) wedi sylweddoli bod angen mynd ati i gyfrannu'n briodol at agenda'r Llywodraeth i roi cyfle i fwy o bobl fanteisio ar fyd addysg uwch, a chynyddu'r niferoedd sy'n ymgymryd â'r addysg honno.

## Camau a gymerwyd hyd yn hyn

4. Mae CMPC wedi ehangu ystod y cymwysterau addysgol y mae'n eu cydnabod i dderbyn myfyrwyr i'w gyrsiau, ac y mae'n gweithio gyda phobl ifanc o ardaloedd lle ceir amddifadedd cymdeithasol neu ddiffyg diddordeb mewn addysg er mwyn tanio eu diddordeb mewn addysg uwch, gan geisio eu hysgogi a'u helpu i gyflawni eu potensial academaidd llawn.

Un rhan bwysig o'r gwaith i gyflawni hyn yw'r "Cynllun Compact".

**Y Cynllun Compact**

5. Menter yw'r Cynllun Compact er mwyn 'agor y drysau' i ddisgyblion na fyddent fel arfer yn ystyried ymgymryd ag addysg uwch. Fe'i hanelir at ddisgyblion nad oes ganddynt draddodiad teuluol o fanteisio ar addysg uwch, ac felly lle nad oes unrhyw un amlwg i'w efelychu.

6. Mae'r Cynllun yn darparu ystod o gyfleoedd i ddisgyblion ysgolion a cholegau ddysgu am addysg uwch yn gyffredinol. Serch hynny, yn fwy penodol, y mae'n cyflwyno'r proffesiynau iechyd i'r disgyblion hyn, a hynny am y tro cyntaf i lawer ohonynt, ac y mae'n annog a datblygu dyheadau yn eu mysg i fod yn ddeintyddion, meddygon, nyrsys a gweithwyr proffesiynol eraill ym myd gofal iechyd.

7. Er mwyn cyrraedd y disgyblion hyn, targedwyd ysgolion yng Nghymru gan ddefnyddio dau faen prawf:

i. Ysgolion oedd â chanran uchel o ddisgyblion yn derbyn prydau ysgol am ddim, ac hefyd
ii. Yr ysgolion hynny nad oedd ganddynt lefelau uchel o gyrhaeddiad academaidd, trwy ddefnyddio llyfrynnau gwybodaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch perfformiad.

Cysylltwyd â phob ysgol a oedd o fewn y categori targed ar ddechrau'r sesiwn academaidd (mis Medi 2000) am ymgynghoriad cychwynnol.

Ers ei gychwyn yn 2001, rhoddwyd cyfle i 75 disgybl y flwyddyn gyflawni nifer o weithgareddau, ac elwa arnynt, er mwyn dysgu mwy ynghylch astudio am yrfa yn y byd iechyd.

8. Ar gyfer blwyddyn 2001/2002, mae 75 disgybl arall o Flwyddyn 11 wedi'u cofrestru ar y cynllun. Bydd 75 arall yn ymuno yn 2002/2003 ac felly, o 2002/2003 ymlaen, bydd 225 o ddisgyblion Compact bob blwyddyn yn cael eu cefnogi gan staff a myfyrwyr y Coleg, a'u hannog ganddynt i gyflawni eu potensial.

9. Yn dilyn blwyddyn gyntaf y Cynllun Compact, cynhyrchwyd taflen newyddion i adrodd ar lwyddiant y fenter. Anfonwyd y daflen newyddion at yr ysgolion targed ym mis Medi 2001 er mwyn annog mwy o ysgolion o fanteisio ar y fenter. Bydd taflen newyddion newydd yn cael ei chyhoeddi ym mis Awst 2002.

10. Mentoriaid o blith y myfyrwyr yw canolbwynt y Cynllun Compact. Defnyddir hwy fel esiamplau i'r disgyblion eu hefelychu, oherwydd nid oes gan lawer o'r disgyblion hyn draddodiad teuluol o fanteisio ar addysg uwch. Bydd un o'r mentoriaid yn bod yn gyfaill i un o'r disgyblion Compact, ac maent yn datblygu perthynas dros y cyfnod y maent yn rhan o'r Cynllun Compact. Maent mewn cysylltiad rheolaidd trwy gyfrwng e-bost neu gyfarfodydd er mwyn trafod ystod eang o faterion sy'n ymwneud â'r cwrs, bywyd prifysgol yn gyffredinol, byw i ffwrdd o gartref, a'r holl gwestiynau eraill y mae disgyblion yn awyddus i'w gofyn.

11. Cynhelir ysgol haf bob blwyddyn ar gyfer disgyblion Compact blwyddyn 11. Mae hwn yn gwrs preswyl 3 diwrnod yn CMPC yng Nghaerdydd, fel y gall y disgyblion Compact wneud nifer o weithgareddau academaidd a chymdeithasol; er mwyn cynyddu eu dyheadau, eu haddysgu ynghylch y cwrs, rhoi blas iddynt o fywyd Prifysgol ac i annog gwaith tîm yn eu mysg. Unwaith eto, mae'r mentoriaid o blith y myfyrwyr yn elfen hanfodol o lwyddiant yr ysgol haf.

**Mentrau eraill**

12. Ar y cychwyn, ystyriwyd cynnig y Cynllun Compact i ysgolion ledled Cymru. Serch hynny, unwaith y sefydlwyd y fenter, sylweddolwyd y byddai'n anymarferol i ddisgwyl i raglen o weithgareddau a oedd yn cynnwys ymweliadau â CMPC yng Nghaerdydd, fod mor llwyddiannus yng nghyd-destun yr ysgolion hynny sydd yng Nghanolbarth a Gogledd Cymru.

Yn achos y disgyblion hynny sy'n byw yn y Canolbarth a'r Gogledd ac yn ardaloedd mwy gwledig Cymru, mae nifer o gyfleoedd eraill ar gael i ddysgu mwy am y proffesiynau iechyd, ac mae rhagor o gyfleoedd ar y gweill:

13. Yn ddiweddar, mynychodd ysgolion a cholegau yn yr ardaloedd hyn Ddiwrnod Agored ar gyfer Wythnos Genedlaethol Gwyddoniaeth, a gynhaliwyd yn y Coleg ar ddydd Iau 14 Mawrth 2002. Hefyd, yn achos y disgyblion hynny sydd â diddordeb arbennig ym maes Meddygaeth, bydd CMPC yn cynnal seminar un diwrnod ar Feddygaeth ar ddydd Sadwrn 27 Ebrill 2002, a fydd yn cynnwys nifer o weithgareddau ymarferol. Bydd yn rhoi cyfle i'r disgyblion elwa ar gynhadledd rhad ac am ddim, sy'n nodwedd unigryw o'i gymharu â'r ddarpariaeth gyfatebol mewn rhannau eraill o Brydain. Hefyd, gwahoddir disgyblion o'r ardaloedd hyn i Ddiwrnod Agored yn CMPC, a fydd yn cynnwys sgyrsiau, teithiau o amgylch y coleg ac arddangosiadau, ar ddydd Sadwrn 29 Mehefin 2002.

14. Yn achos penodol Canolbarth a Gogledd Cymru a chefn gwlad, bydd CMPC hefyd yn trefnu dau gwrs yn yr ardaloedd hyn i roi blas o fyd gofal iechyd i ddisgyblion: cynhelir un yn Ysbyty Bronglais, Aberystwyth a'r llall yn Ysbyty Gwynedd, Bangor. Darperir trafnidiaeth i'r disgyblion hyn, a bydd diwrnod o seminarau, teithiau o gwmpas yr ysbytai a chyfle i siarad â phobl yn yr amryfal broffesiynau iechyd. Bydd y cyrsiau hyn yn rhan o Wythnos Agored y GIG, a gynhelir o 15 i 19 Ebrill 2002, a byddant yn golygu cydweithio rhwng yr Ymddiriedolaethau, Gyrfa Cymru a CMPC yng Nghaerdydd.

15. Cynhaliwyd Diwrnod Agored ar gyfer Cynghorwyr Gyrfaoedd yn ystod mis Gorffennaf 2000 yn CMPC. Mynychodd tua 80 o ymwelwyr o bedwar ban Cymru a siroedd y gororau y digwyddiad. Roedd y diwrnod yn cynnwys grwpiau trafod gyda thiwtoriaid, gwybodaeth ynghylch cymwysterau ôl-16, cyfle i siarad â myfyrwyr presennol a thaith o gwmpas rhai o'r ardaloedd clinigol a safle'r ysbyty. Cynhelir y digwyddiad ddwywaith y flwyddyn, gyda'r Diwrnod Agored nesaf ar gyfer Cynghorwyr Gyrfaoedd yn CMPC ar ddydd Mawrth 25 Mehefin 2002.

16. Mae'r Coleg hefyd yn gweithio gyda phobl aeddfed o dan yr agenda dysgu gydol oes a bennwyd gan y Llywodraeth, yn annog y rheini sydd heb unrhyw gymwysterau i fanteisio ar gyrsiau addysg uwch

wedi'u teilwra ar eu cyfer, ac yn annog y rheini sydd â chymwysterau a enillwyd rai blynyddoedd yn ôl i fynychu cyrsiau i adnewyddu eu sgiliau. Mae hyn hefyd yn galluogi'r bobl hynny nad ydynt yn medru ymgymryd ag astudiaethau amser-llawn i fanteisio ar astudiaethau rhan amser a fydd yn arwain at gymwysterau gradd neu ddiploma.

17. Mae CMPC yr un mor awyddus i roi cyfle cyfartal i fyfyrwyr sydd ag anableddau, gan groesawu a derbyn myfyrwyr sydd ag anawsterau dysgu penodol ac anableddau corfforol.

**Cwricwlwm 2000**

18. Mae'r modd y mae CMPC yn bwrw ati â Chwricwlwm 2000 yn annog myfyrwyr o amrywiaeth mawr o gefndiroedd - academaidd a galwedigaethol - i wneud cais am unrhyw un o'i gyrsiau. Hefyd, roedd ymysg y sefydliadau cyntaf yn y DU i fod yn hyblyg wrth gydnabod y cymwysterau newydd hyn, sy'n rhan o gennad Cwricwlwm 2000. Bydd cydnabod cymwysterau galwedigaethol a chymwysterau mewn sgiliau allweddol yn annog disgyblion o ysgolion a cholegau lle na cheir traddodiad o anfon myfyrwyr i addysg uwch, i ystyried astudio am radd neu ddiploma. Ysgol Feddygaeth y Coleg oedd y cyntaf yn y DU i gynnwys cyfuniad o lefelau A ac AS mewn cymwysterau GCE a VCE, yn ogystal â chymwysterau mewn sgiliau allweddol, yn ei gynigion amodol, ac ers hynny dim ond un ysgol feddygaeth arall sydd wedi ei efelychu.

19. Canmolwyd agwedd y Coleg yn genedlaethol gan Tony Higgins, Prif Weithredwr UCAS:

"Mae'r Coleg ymhell ar y blaen, y mae ar flaen y gad yn y DU o ran y trefniadau cwricwlwm newydd. Mae wedi llunio meini prawf ar gyfer derbyn myfyrwyr sy'n manteisio ar yr holl gymwysterau ôl-16 newydd, ac y mae'n fodel o arferion da, gan ddangos hyblygrwydd canmoladwy a fydd yn sicrhau eu bod yn denu myfyrwyr o'r radd flaenaf."

20 Amrywiol iawn oedd ymatebion ysgolion meddygol y DU i fenter Cwricwlwm 2000, ac y maent yn parhau felly. Cynhaliodd Cofrestrydd Cynorthwyol (Recriwtio a Derbyn) CMPC arolwg o bob ysgol feddygol yn y DU. Hysbyswyd ystod eang o ymgeiswyr arfaethedig, rhieni ac athrawon ledled y DU a thramor am y canlyniadau, trwy gyfrwng llyfryn a gyhoeddwyd gan UCAS, a hefyd, fe'u cynhwyswyd yn nghyhoeddiad y Gymdeithas Feddygol Brydeinig - Becoming a Doctor (2001). Cyhoeddwyd yr arolwg hefyd ar wefan y Coleg ei hun.

**Caerdydd – Prosiect Dinas Dysg**

21. Menter ar y cyd rhwng pedwar o sefydliadau addysg uwch Caerdydd yw Pedwarawd Caerdydd; Prifysgol Caerdydd, Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd, Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru a Choleg Cerdd a Drama Cymru. Canolbwynt y fenter yw'r Uned Arddangos Symudol (UAS), sy'n cael ei gyd-drefnu gan Brifysgol Caerdydd. Mae'r uned yn ymweld ag ysgolion a cholegau mewn ardaloedd lle ceir amddifadedd cymdeithasol. Mae'r UAS yn gweithredu gyda Swyddogion a myfyrwyr o'r pedwar sefydliad. Mae CMPC yn anfon myfyrwyr o bob un o'r proffesiynau iechyd allan i ysgolion ar yr UAS er

mwyn helpu i ysgogi ac addysgu disgyblion ynghylch y cyfleoedd sydd ar gael mewn Addysg Uwch.

**Cyllid**

22. Ni cheir cymorth ariannol uniongyrchol ar gyfer mentrau hyn gan y sector iechyd. Serch hynny, mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW) wedi dyrannu cyfanswm o £24,150 yn ystod 2001-02 i Goleg Prifysgol Cymru, er mwyn helpu iddynt roi'r cynlluniau a nodir yn y papur hwn ar waith. Dyrannwyd y cyllid o brif gronfa a chronfa strategol HEFCW ar gyfer denu mwy o bobl at addysg uwch.

**Gweithredu**

23. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r mentrau y mae Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru yn eu cymryd i ddenu mwy o bobl at addysg feddygol yng Nghymru.

**JANE HUTT**

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Y pwynt cyswllt** ar gyfer ymholiadau yw Carl Eley, Cangen Addysg, Hyfforddiant a Datblygiad y GIG, yr Is-adran Adnoddau Dynol, Parc Cathays (Est: 3635)